Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Emrys Ap Iwan
Rhodfa'r Faenol
Abergele
Conwy
LL22 7HE

06/01/2025

Annwyl Matthew Wildsmith,

**Ymweliad interim:** Rhagfyr 2024

Diolch am eich cymorth gyda'r ymweliad interim â'r ysgol ar 10 ac 11 Rhagfyr 2024. Fe wnaethom fwynhau'r cyfle i gyfarfod â chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am sut mae'r ysgol wedi ymateb i argymhellion a wnaed gan Estyn yn ystod yr arolygiad craidd ym mis Mai 2022. Roedd yn bleser gweld y ffordd yr oedd eich staff yn croesawu'r broses, a'r didwylledd a ddangoswyd ganddynt yn ystod trafodaethau.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- Gyfarfod ag uwch arweinwyr i drafod y gwaith ar ddatblygu prosesau arwain a gwella, a'ch gwaith i wella medrau llythrennedd, rhifedd a Chymraeg disgyblion.
- Siarad ag arweinwyr canol am sut maent yn gwerthuso'u gwaith eu hunain ac yn cynllunio ar gyfer gwelliannau.
- Siarad â disgyblion a chlywed eu hadborth ar yr ysgol.
- Siarad â grwpiau arwain disgyblion a sut maent yn dylanwadu ar waith yr ysgol.
- Ymweld â gwersi mewn amrywiaeth o bynciau i weld disgyblion a staff yn ymgymryd â'u gwaith.
- Craffu ar sampl o waith disgyblion.
- Craffu ar waith ac ymgymryd â gweithgareddau arsylwi gwersi gydag arweinwyr a thrafod y prif ganfyddiadau o'r gweithgareddau hyn.

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

**Ffocws yr ymweliad**

**Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol, gan gynnwys y Gymraeg**

Ar sail cyfarfodydd ag arweinwyr, ymweliadau â gwersi a chraffu ar waith disgyblion, mae'n amlwg fod yr ysgol wrthi'n cryfhau ei hymagweddau at ddatblygu medrau disgyblion. Er enghraifft, mewn rhai pynciau, mae athrawon yn cynorthwyo disgyblion yn dda i greu darnau o ysgrifennu estynedig o ansawdd da. Mae'r ysgol hefyd wedi datblygu ymagwedd fuddiol at ddatblygu llafaredd disgyblion. Fodd bynnag, byddem yn cytuno â'r ysgol bod angen mwy o gysondeb o ran sut mae pynciau ar draws y cwricwlwm yn cefnogi datblygiad medrau llythrennedd disgyblion. Mae'r ysgol wedi adolygu ei hymagwedd at ddatblygu medrau rhifedd a digidol ac mae ganddi gynlluniau addas i ddatblygu'r agwedd hon ar ei gwaith, er mai megis dechrau y mae hyn.

Mae arweinwyr wedi cyflwyno nifer o strategaethau cefnogol i ddatblygu ethos Cymreig cryfach ar draws yr ysgol, yn cynnwys creu rôl y 'Pencampwr Cymraeg'. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar agwedd disgyblion at ddysgu Cymraeg.

Rydym yn meddwl y byddai'n fuddiol i chi ystyried:

- Pa mor dda y mae'r ysgol yn cryfhau ei chynlluniau i wella datblygu medrau disgyblion yn raddol ar draws y cwricwlwm?
- A yw arweinwyr yn gwerthuso'r ddarpariaeth ar gyfer medrau yn ddigon trylwyr o ran ei heffaith ar safonau disgyblion?
- A yw pob un o'r staff yn glir ynghylch y disgwyliadau ar gyfer datblygu medrau, a pha mor dda y caiff y disgwyliadau hyn eu cyfleu a'u monitro?
- Sut mae'r ysgol yn datblygu disgyblion i fod yn fwy annibynnol wrth ddarllen ac ysgrifennu yn Gymraeg, a sut mae staff yn helpu disgyblion i fod yn fwy hyderus i ddefnyddio Cymraeg llafar?

**Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel a gwella hunanwerthuso a chynllunio gwelliant**

Bu nifer o newidiadau yn arweinyddiaeth yr ysgol yn ddiweddar. Mae arweinwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau synhwyrol i gynyddu'r effaith a gaiff eu gwaith ar ddeilliannau disgyblion, er ein bod yn cydnabod mai megis dechrau datblygu y mae rhai o'r dulliau hyn. Trwy ein cyfarfodydd a'n gweithgareddau ar y cyd ag arweinwyr ysgolion, roedd yn glir fod ganddynt ddealltwriaeth gadarn, ar y cyfan, o gryfderau a meysydd i'w datblygu pwysicaf yr ysgol. Byddem yn cytuno mai'r cam datblygu nesaf yw helpu pob un o'r arweinwyr i werthuso effaith eu darpariaeth yn fanwl gywir.

Mae'r ymagwedd newydd a ddatblygwyd at werthuso dysgu ac addysgu ('Blinks') yn helpu meithrin diwylliant buddiol o fyfyrio a chydweithio. Rydym yn cydnabod bod gwaith i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau effeithiolrwydd cyson ar draws arweinyddiaeth ar bob lefel, a mwy o atebolrwydd pan fydd angen.

Mae arweinwyr bugeiliol yn dadansoddi ystod o wybodaeth ynghylch cynnydd disgyblion, eu hagweddau at ddysgu a'u presenoldeb. Mae'r ddarpariaeth a roddant ar waith yn sgil eu gwerthusiadau yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion.

Rydym yn meddwl y byddai'n fuddiol i'r ysgol ystyried:

- Beth yw effaith y newidiadau diweddar i arweinyddiaeth ar agweddau pwysig ar waith yr ysgol, er enghraifft lefel yr her mewn addysgu, darpariaeth medrau a phresenoldeb disgyblion?
- Pa mor dda y mae arweinwyr yn datblygu dealltwriaeth fanwl gywir o'r agweddau penodol ar y ddarpariaeth sydd angen eu datblygu?
- Pan nad yw cymorth yn cael effaith ddigonol, pa mor gadarn y mae arweinwyr yn herio arfer aneffeithiol?

Diolch eto am eich holl gymorth i gynllunio a threfnu ein hymweliad.

Mae adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim i'w gweld ar ein gwefan:

https://www. estyn.llyw.cymru/darparwr/6625400

Yn gywir

**Catherine Evans**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol